**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at County Hall, Usk - Remote Attendance on Dydd Mawrth, 15fed Chwefror, 2022 at 1.00 pm**

**CYNRYCHIOLWYR CYNGHORWYR SIROL:**

County Councillor P. Pavia (Cadeirydd)
County Councillor T. Thomas
County Councillor M. Powell
County Councillor L. Brown

**CYNRYCHIOLWYR FFYDD:**

Revd. J. Greaves
Mr. N. Pryor
Ms. R. Morteo
Mrs B. Quinlan
Mrs S. Gooding

**CYNRYCHIOLWYR ATHRAWON:**

Mrs S. Hamer
Mrs. C. Rhodes

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Sharon Randall-Smith | Pennaeth Cyflawniad a Chyrhaeddiad |
| Matt Phillips | Pennaeth Cyfraith/Swyddog Monitro |
| John Pearson | Rheolwr Democratiaeth Leol |
| Wendy Barnard | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Hayley Jones | Curriculum Partner (SACs and RVE) |

**YMDDIHEURIADAU:**

Mrs. S. Cave, Mr. A. Szwagrzak and Mr. N. Jenkins

1. **Croeso ac Ymddiheuriadau ar gyfer Absenoldeb**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Rebecca Morteo, cynrychiolydd Ffydd newydd ar ran yr Eglwys yng Nghymru a Charlotte Skinner, cynrychiolydd newydd Athrawon.

2. **Datganiadau o Fuddiant**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant.

3. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at County Hall, Usk - Remote Attendance on Dydd Mawrth, 15fed Chwefror, 2022 at 1.00 pm**

**4. Cylch Gorchwyl CYSAG a gyfer Cynhadledd y Maes Llafur Cytunedig (gweler y ddolen)**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaeth: Cyflawniad a Gwasanaethau Estynedig yr adroddiad newydd i ystyried Cylch Gorchwyl CYSAG ar gyfer Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig. Bydd y cwricwlwm newydd yn golygu y bydd angen alinio maes llafur cytunedig newydd i'w gyflwyno yn ysgolion Sir Fynwy o 1 Medi 2022.

Rhaid trefnu Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig yn dilyn gweithdrefn a osodir gan Lywodraeth Cymru i gytuno ar y cyd ar faes llafur a gaiff wedyn ei gadarnhau gan y Cyngor. Caiff aelodaeth y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig hefyd ei nodi'n glir mewn canllawiau. Rhoddwyd yr amserlen ar gyfer y broses.

Wrth ystyried y Cylch Gorchwyl diwygiedig (Opsiynau 1 a 2) awgrymwyd gwneud y newid dilynol:

- Bydd enwadau Cristnogol ac enwadau crefyddol eraill sydd, ym marn yr awdurdod, yn adlewyrchu mewn modd priodol y prif draddodiadau crefyddol yn yr ardal, ynghyd â lle ar gyfer grŵp sydd â chredoau ~~heb fod yn grefyddol~~ "credoau athronyddol heb fod yn grefyddol". Sylweddolir y bydd achlysuron pan fo budd effeithiolrwydd yn drech na'r gofyniad am gynrychiolaeth uniongyrchol gymesur (13 aelod).

Cytunodd y Swyddog Monitro gyda'r addasiad i'r geiriad i fod yn gyson â Deddf Addysg 1996 fel y'i diwygiwyd ac awgrymodd nad oedd diffiniad pellach o gredoau athronyddol heb fod yn grefyddol.

Dywedwyd fod CYSAG ar hyn o bryd yn brin o gynrychiolaeth o brif draddodiadau crefyddol eraill. Cytunwyd y byddai newid o CYSAG i CYS yn rhoi cyfle i geisio cynrychiolaeth o brif draddodiadau crefyddol eraill ar CYS. Yn y cyfamser, unwaith y cymeradwywyd y cylch gorchwyl, gellir anfon llythyrau i ychwanegu unigolion i'r Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig. Nodir fod hefyd opsiwn i gyfethol ymgynghorwyr.

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys cynigion ar gyfer cynrychiolaeth athrawon a byddai Opsiwn 1 yn parhau i ganiatáu cymdeithasau proffesiynol i wneud enwebiadau ond lle nad yw'n bosibl sicrhau cynrychiolwyr a bod swyddi yn dal yn wag, caniateir cysylltu gyda phenaethiaid ysgol. Dywedwyd fod a31 Deddf Addysg 1996 yn sôn am gymdeithasau athrawon a byddai cysylltu â phenaethiaid ysgol yn symud i ffwrdd oddi wrth hyn. Awgrymodd y Swyddog Monitro y byddai'n rhesymol a chymesur symud i ffwrdd er mwyn sicrhau prif nod y ddeddfwriaeth. Cadarnhawyd y bu'n anodd sicrhau cynrychiolaeth drwy'r cymdeithasau athrawon ac y byddai'n bosibl derbyn enwebiadau gan benaethiaid ysgol i'r cymdeithasau eu cymeradwyo.

Holodd Aelod am gynrychiolaeth credoau athronyddol heb fod yn grefyddol gan gyfeirio at yr ystod eang ohonynt a ph'un ai a ddylid cysylltu am gynrychiolwyr, a holodd pa newidiadau y mae'r Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig yn eu cynnig i'r canllawiau Crefydd Gwerthoedd a Moeseg. Dywedodd yr Aelod fod y crynodeb deddfwriaethol yn cyfeirio at ystod o gredoau crefyddol ac yn ei gysylltu gyda chyfraith achos Ewropeaidd. Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn dal i nodi Cristnogaeth a phrif grefyddau fel y'u cynrychiolir yng Nghymru (wedi newid o'r Deyrnas Unedig) tra bod yr ystod yn dal yn weithredol i gredoau athronyddol heb fod yn grefyddol. Mae'n bwysig dynodi'r gynrychiolaeth fydd yn ein cynorthwyo i lunio'r maes llafur.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at County Hall, Usk - Remote Attendance on Dydd Mawrth, 15fed Chwefror, 2022 at 1.00 pm**

Cadarnhawyd fod gan yr Eglwys yng Nghymru grŵp o ymarferwyr sy'n gweithio ar ganllawiau Crefydd Gwerthoedd a Moeseg a bydd hynny ar gael ar-lein yn y dyfodol agos. Gellir rhoi cyflwyniad mewn cyfarfod yn y dyfodol. Mae'n alinio'n agos gyda chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Ychwanegodd y Cynghorydd Crefydd Gwerthoedd Moeseg y cafodd yr holl gyngor ei roi a bod awdurdodau eraill yn ei ddilyn i fod mor gynhwysol ag sydd modd.

Gan ystyried credoau athronyddol heb fod yn grefyddol, awgrymodd y Swyddog Monitro y dylid ceisiai sicrhau cydbwysedd gan roi'r enghraifft bod Dyneiddiaeth yn gred athronyddol heb fod yn grefyddol yn gwrthweithio credoau crefyddol lle gall manylder credoau un mater (e.e. feganiaeth, newid hinsawdd) gynnwys credo grefyddol. Bydd esboniad o sut y dynodwyd cynrychiolaeth yn rhoi tryloywder.

Cymeradwywyd Opsiwn 1.

5. **Cynhadledd y Maes Llafur Cytunedig – Llinell Amser**

Rhoddwyd esboniad o'r camau a'r amserlen ar gyfer Cynhadledd Maes Llafur a gytunwyd.

Gofynnwyd cwestiwn am y nifer a all gymryd rhan mewn Cynhadledd a chadarnhawyd nad oes cyfyngiad.

6. **Diweddariad Ysgolion**

Rhoddodd y Cynghorydd Crefydd Gwerthoedd Moeseg ddiweddariad fel sy'n dilyn:

- Hysbyswyd ysgolion yr ychwanegwyd Addysg Grefyddol/ Astudiaethau Crefyddol at y rhestr o bynciau fydd yn cael gwybodaeth ymlaen llaw (meysydd pwnc cyffredinol, cwestiynau neilltuol) yn ogystal â'r gostyngiad o 25% yn y cynnwys a aseswyd. Gellir cyfeirio ymholiadau at y Cynghorydd Crefydd Gwerthoedd Moeseg.
- Mae CYSAG Cymru yn datblygu dysgu proffesiynol ar gyfer Crefydd Gwerthoedd Moeseg yn seiliedig ar y canllawiau. Bydd tîm o ddeg o ymarferwyr yn cael 9 diwrnod llawn i greu'r adnoddau cyn diwedd tymor yr haf. Caiff modiwlau ar-lein ac adnoddau cysylltiedig eu cynnwys.

7. **Busnes CYSAG Cymru**

Nodwyd fod cyfnod swydd Mrs. S. Gooding ar Bwyllgor Gwaith CYSAG Cymru yn dod i ben. Mynegodd y Cynghorydd Sir L. Brown ddiddordeb yn y swydd a darllenodd ei datganiad personol.

Pleidleisiodd y tri grŵp mewn ystafelloedd grŵp a chadarnhau enwebiad y Cynghorydd Sir L. Brown.

Cafodd y Cynghorydd Sir L. Brown ei llongyfarch gan Mrs Gooding am ei henwebiad a dywedodd iddi fwynhau ei chyfnod ar Bwyllgor Gwaith CYSAG Cymru.

Diolchodd y Cadeirydd, ar ran CYSAG, i Mrs Gooding am ymgymryd â'r swydd am y tair blynedd ddiwethaf.

**8. Unrhyw Fusnes Arall**

Roedd Cylch Gorchwyl CYSAG wedi ei gylchredeg a chytunwyd y dylid gwneud ychwanegiad i alluogi cyfarfodydd hybrid. Bydd y Clerc yn pasio'r awgrym hwn ymlaen.

**9. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod blaenorol.

**10. Cadarnhau dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol**

9 Mawrth 2022 – 1) Cynhadledd Maes Llafur Gwaddol
2) Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig

28 Mawrth 2022 – Gweithdai SC

26 Ebrill 2022 - CYSAG

**Y cyfarfod diwedd yn 2.15 pm**